# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-12-07)

**Dyddiad: 27 Tachwedd 2007**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
### Eitem 2: Offerynnau na chafodd y Cynulliad ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.
### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC71 - Rheoliadau Tai Amlfeddiannaeth (Blociau Fflatiau Penodol) (Addasiadau i Ddeddf Tai 2004 a Darpariaethau Trosiannol ar gyfer HMOs adran 257) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2007**.** Yn dod i rym ar 5 Rhagfyr 2007.

- addasu Rhan 2 (trwyddedu tai amlfeddiannaeth) a Rhan 4 (darpariaethau rheoli ychwanegol mewn perthynas â lletyau preswyl) c Ddeddf Tai 2004 i wneud darpariaeth arbennig mewn perthynas â HMOs adran 257 (h.y blociau a droswyd yn fflatiau hunangynhwysol nad oedd y gwaith adeiladu a wnaed mewn cysylltiad â'r addasu yn cydymffurfio â safonau adeiladu penodol a lle mae llai na dwy ran o dair o'r fflatiau hunangynhwysol wedi'u perchen-feddiannu).

SLC72 - **Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlfeddiannaeth (Darpariaethau Ychwanegol) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2007**.** Yn dod i rym ar 5 Rhagfyr 2007. - yn gosod dyletswyddau ar reolwyr a meddiannwyr HMOs penodol ("HMOs adran 257") (hynny yw, yr adeiladau hynny a droswyd yn fflatiau hunangynhaliol lle nad yw'r gwaith trosi yn cydymffurfio â safonau adeiladu penodol a lle bo llai na dwy ran o dair o'r fflatiau yn cael eu perchen-feddiannu) **SLC73 - Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Tachwedd 2007**.** Yn dod i rym ar 4 Rhagfyr 2007. - yn diwygio Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd) i egluro'r ddarpariaeth ar gyfer pennu beth yw hawliau ariannol a thalu dysgwyr amser llawn o bell yng Nghymru. **SLC74 - Rheoliadau Tai (Asesiad o Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 14 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2007. - Mae Adran 225 o Ddeddf Tai 2004 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gyflawni asesiad o anghenion llety sipsiwn a theithwyr sy'n preswylio yn eu hardal neu'n cyrchu iddi. Mae Adran 225(5) yn darparu fod i "Sipsiwn a theithwyr" yr ystyr a nodir yn y rheoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio "sipsiwn a theithwyr" at ddibenion y ddyletswydd honno.

### Eitem 3: Offerynnau y cafodd y Cynulliad ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2
### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC67 - Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 7 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 28 Tachwedd 2007. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu 1999 (O.S. 1999/1540) (fel y'i diwygiwyd), sy'n rhychwantu Prydain Fawr gyfan, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, ac maent yn ailddeddfu'r Rheoliadau hynny gyda newidiadau o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, i'r graddau a bennir ym mharagraff 3 y Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau, yr offerynnau Cymunedol a bennir yn y paragraff hwnnw. **SLC76 - The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) (Amendment) Regulations 2007** (Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig) Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Tachwedd 2007. Fe'u gosodwyd ar 16 Tachwedd 2007. Yn dod i rym ar 17 Tachwedd 2007. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2006 (SI 2006/1536 (W.153)) (y "prif Reoliadau"), i gymryd i ystyriaeth Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif. 1266/2007 sy'n gosod rheolau gweithredu ar gyfer Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/75/EC ynghylch rheoli, monitro, gwyliadwriaeth a chyfyngiadau ar symud anifeiliaid penodol o rywogaethau a allai gael haint y tafod glas.

### Eitem 4: Unrhyw fater arall
### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf